160 528920 7

# GALAREB

AM

# MRS. JONES,

DIWEDDAR BRIOD

# Y PARCHEDIG D. JONES,

## BETHESDA, MERTHYR,

NADOLIG, 1852.

"As impossible as an elegy of worthy feeling for a woman, in the mouth of any one, except her husband."—*Edinburgh Review.*

CAERFYRDDIN:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM SPURRELL, HEOL-Y-BRENIN.

767.6 W

# GALAREB MRS. JONES.

Fynai'm traed at fyglyd Ferthyr,
  Ar foreuddydd teg o haf;
A than swn ei ffwrn a'i pheiriant,
  Croesi wnes ei du-lwyd Daf:
Ond, tra gwnawn ymlaen ymdynu,
  Ac yn syn gan drwst y dre,
Dygwydd sefyll wnes, ac wele,
  Hen Fethesda ar fy ne'.

Pan edrychais tua'r fonwent,
  Gwelwn ddyn yn sefyll draw;
Tal o gorph, a du ei ddillad,
  Gyd a phlentyn yn ei law;
Pwyso wnaent ar gist naddedig,
  Lle disgynai 'u dagrau 'n lli;
A phan syllais, wele beddrod,
  Newydd feddrod ydoedd hi.

Llaw y gwr oedd dan ei arlais,
  A'i benelin ar y nen;
Yntau, 'r bachgen prudd a bwysai
  Ar y beddrod oer ei ben;
Weithiau, cipiai'r gwr y plentyn,
  Ac a'i gwasgai yn ei gol;
Yna, ar y llawr gollyngai,
  A chydwylai'r ddau yn ol.

Fel y nodwydd ar ehedfaen,
  Tynu tua'n gilydd wnaem,
O foreuddydd cynnar ie'nctyd,
  Nes ein dau yn un yr aem.
Rhoes yr angeu, wrth ein dattod,
  Fwy na thasg, o braidd i'w glwyf;
Canys, tra dydi yn huno,
  Minnau wrth dy erchwyn wyf.

Cawswn riaint gan Ragluniaeth,
  Rhyngof a niweidiau nam;
Eglwys sy'n fy llochi'n gynnes,
  Fel cofleidiau mynwes mam;
Etto, mwy i mi na'r cwbl,
  Oedd mwynhau dy gwmni di,
Pan ddisgynai'th wen a'th gusan,
  Fel y mêl i'm mynwes i.

Gyd ag eglwys mor luosog,
  Llawer gair o athrod el;
O mor werthfawr i weinidog,
  Feddu gwraig a'i genau'n sel!
Gennyt *ti* ni chadd athrodwr,
  Ond yr adnod hallt a'r "hust!"
Malais byth ni siglai'i thafod,
  Lle na bo agored glust.

Pan y cwrddwn, fel gweinidog,
  Wg yr ieuanc, gwg yr hen,
Buan dynit ti yr argraff
  A dy bur, ddiniwed wen;
Pan dan flinder diwedd Sabboth,
  Hyfryd brysio tua thre',
Canys codai'th flasus dammaid,
  A dy groeso'r oll i'w le.

Pan yn bwrw ar y dyrfa
  Oreu'r daran—oreu'r dôn;
Dweyd wrth wel'd yr oll yn ofer,
  Mai yr unpeth tewi a son.
Yna, O mor ber dy gysur!
  Bellach 'does ond diodde'r hin,
Edrych ar dy John—dy bictiwr,
  Ocheneidio—plygu'r glin!

Ymgorphoriad pur hynawsedd,
  Gyd a'r ostyngeiddiaf serch ;
Hi, fy hoff anwylyd ydoedd,
  Os bu'r fath erioed o ferch :
Gwylaidd rosyn, meddaf, ydoedd—
  Rhosyn per yn ceisio byw,
Fel hwynthwy—y bach rosynau—
  Cyd â'r boreu, yna'n wyw !

Per flodeuyn, gwych ei lestr,
  Gennyf oedd, a mawr ei fri ;
Ond pan gan anwyled ydoedd,
  Ei arogli fyth wnawn i,
Darnio'r llestr wnaeth yr angeu,
  Nes yn wyw âi'r teg ei wawr ;
Etto arogl y blodeuyn
  Erys gylch y darnau'n awr.

Tyfu wnelem fel ein gilydd,
  Canys caru'n gilydd wnaem ;
Braich yn mraich pan elem beunydd,
  O mor hyfryd unfron aem !
Ceisiwn fod ei hynaws heulwen
  Iddi, foreu gwanwyn braf ;
Hithau'n ddaear serchus, flysig,
  Lawn o flodau cariad haf.

Cerais am yr ymddangosai
  Yn naturiaeth oll i mi,
Dan ei hanwyl amrywiaethau,
  Yn ei hawyr, llawr, a lli.
Os machludai fy ngoleuad
  Heno 'nghanol dagrau cur,
Codai'r boreu ar fy ngalwad
  Gan belydru llonder pur.

Ie, pur o waelod enaid,
  A gwresogrwydd calon oedd ;
Gyda rhywbeth tra diniwed,
  A dirwgnach yn ei bloedd,
Megis enfys o fendithion
  Geid yn gyson gylch ei gwedd ;
Rhwygo y rhai'n wnaed o'm cofleidiau !
  Myn'd â'r rhai'n wnaeth creulon fedd !

Dweyd a wnaeth fod raid fy ngadael,
  A'r holl ia o'i gwefus dodd :
Tawai'r tannau'n ddiymrafael ;
  Miwsig yn dybenu oedd ;
Bywyd yn ei ddadgysylltiad,
  Yn rhoi naid o'r drylliawg glai ;
Môr, mewn nefol ymagerddiad—
  Fry i lanw byth heb drai.

Ei chaeth anadl a wyliasom—
  A wyliasom drwy'r holl nos,
Tra'r ymnesai ton ei bywyd
  Tua a glan diweddiad oes.
O mor isel ei llafariad—
  Araf ei hanadliad hi !
Tra'r attelid diangfa'i heinioes
  A'r holl nerth a feddem ni.

Peidiai'r tafod a'r symudiad,
  Ond y llygad aethai'n awr,
Fel yn weithred, gair, a theimlad,
  Canys dwyfol oedd ei wawr ;
Yna berwodd fy nheimladau
  Dros ymylau'r fron yn wyllt ;
Dan fath dreial i'w serchiadau,
  Nid oes calon braidd na hyllt.

Wrth ei herchwyn ar fy ngliniau,
  Ymollyngais yn rhyw lun ;
Fath wefrdanawl gyffyrddiadau
  Doddent ein heneidiau'n un ;
Yna'r teimlad dd'ai'n ddiamnaid,
  Sy'n dadwneyd a dattod oll—
Rwyga ger ei wraidd yr enaid,
  Gan ei ollwng fel yngholl.

Fel odbluen yn ymdoddi,
  Y disgynodd yn fy nghol :
Nid oes cariad a thrueni,
  Dyn a seraph, etto'n ol,
Yn ymblethu, a chofleidio,
  Hyd wallgofrwydd mud, di gri,
Fel drwy'r unig wyllt-awr hono
  Awr ddiweddaf gwên i mi !

Aeth yn oer a gwelw'i gwefus;
  Do, ond ymddangosai i'm
Ei thoddedig enaid yno'n
  Serch nas gallai farw ddim;
Ac o hyd fy llaw a wasgai
  Hi ar y fan lle gwasg'sai'i chlwy';
Ie, ar y glwyfus galon,
  Gawsai beidio teimlo mwy.

Llawer oer, a digwsg hirnos,
  Dreuliai'm bron, a'm hamrant i,
Wrth, tra llechit ar fy ystlys,
  Wel'd yr Angeu'n myn'd a thi!
Yna'th dyner rudd gusanwn,
  Ie, welwed oedd ei gwawr!
O fy nghalon fach a waeda
  Wele'r gwaetha ddaeth yn awr!

Cefais i, sy'n fawr bechadur,
  Gan ein Hiesu lawer fraint,
Ag nas gall fy mron mo'r teimlo
  Byth, na mesur beth eu maint;
Ond o honynt oll mae gennyf
  Hono yn anwylaf un
I'm roi'th ben ar fron dy Brynwr,
  O'm gruddfanus fron fy hun.

Ond 'roedd yn yr hyn ddisgwyliwn
  Pan yn glaf, ryw swyn i serch;
Sef cael dringo'n beraroglawg
  Yn santeiddiaf eirchion merch.
Pallwyd hyn i mi—ac etto'r
  Fraint a ges, nid bechan yw;
Cadd fy machgen bach a minnau
  Ynddynt beraroglawg fyw.

Ond mi ges ynghyd a'th Geidwad
  Ran o'r olaf feddwl fu
Yn ymchwarae drwy dy ysbryd
  Cyn ei naid esgynol fry.
Do, rhoist imi'th olaf gusan,
  Gyd â'r egwan wasgiad llaw,
A phelydryn ola'th lygad
  Ar fynediad d'enaid draw.

Ti oedd—pan y'th gyntaf welais,
  Haul belydrau boreu oes;
Felly yn ddiball, parheaist,
  Hyd nes aeth dy golli'n nos;
Hyd nes canfu 'ngobaith fallder
  Draws ei ardd o flodau byw;
Nes fy nghof—fu gynt yn fiwsig,
  Gafodd mai ochenaid yw!

Ces ar ddeall, 'rol dy golli,
  Am yr oriau dreulit ti,
Wrth ymroi i ymheddychu
  A'r fath beth a'm gado i;
Ac i wel'd nad yw'r Rhagluniaeth
  Hono'n greulon, chwith, na cham,
Wna'th anwylyd heb ei briod,
  A dy Ioan bach heb fam.

Olaf air ein nhos-obenydd,
  Odid nad dy enw fydd,
Deigryn eilwaith yn y boreu
  I dy gof gyssegra'n grudd.
Haul, a lleuad, ser, ffurfafen;
  Bach a mawr ar lawr a lli';
Aethant rywfodd wrth dy golli,
  Fel dyeithriaid oer i ni.

Gwnaf a fynwyf, af lle'r elwyf,
  Ti sy'n bob-peth, pob-man byd;
Megis ffurf o deg oleuni,
  Llithri draws fy nhrem o hyd.
Teimlaf d'anadl ar fy nwyrudd,
  Clywaf, megis cynt, dy gân,
Nes yw'r galon, gan ei hiraeth,
  Fel ar ymyl tori'n lan.

Dacw'r Bibl, dacw'r Hymnau,
  Fu'n dy ddal drwy'r olaf don,
Mynnaf, er yn gwaedu 'm harcholl,
  Gadw *'rhei'na* ger fy mron.
Ië, dyma'th unig blentyn,
  Gedy'r nefoedd *hwn* i mi,
Gwyddai'r âi, pe fodd, anwylach,
  Am ei fod dy *bictiwr* di.

Pan ganfyddwyf ar y pared
  Ddarlun rhyw-ferch ddoeth a da,
Gyda'r aeliad, serch sy'n myned,
  Ac â thi i'w *frâm* yr â.
Ti yw ysbryd pur fy mreuddwyd,
  Breuddwyd oll yn flodau gardd,
Adgo'th gân, ei felus fiwsig;
  Adgo'th wen, ei heulwen hardd.

'Rol i ti am byth ein gadael,
  Llechu dan y garreg oer!
Lle ni chei yn gwmni gaua',
  Ond yr eira gwyn a'r lloer.
Nid oes gennym mwy yn gwmni,
  Ond dy feddrod gynnes gau;
A dy ddarlun i'w gusanu
  Yn dy le dy hun—ein dau.

Wrth dy gynnes hen Fethesda,
  Lle cest wledda llawer awr;
Bron wrth ddrws yr hen addoldy,
  Mae dy anwyl gorph yn awr!
Ofnaist lawer i wrthgiliad,
  Wneyd ymhell yn rhywle'th dre,
'Nawr, does ond yr udgorn olaf,
  Byth a'th dyn oddiwrth y lle.

Byth nid elai swn addoli,
  It' yn flinder, *yn dy fyw;*
Nid, na chysgai'n ddigon agos,
  Yw, na thery'n *awr* dy glyw.
Oes a gofid wrth bregethu,
  Fel ei clywsit, pe'n ddihun?
Fi nis gwn—ond gwn am un-peth;
  Nad ei'n angho'n hir gan *un*.

Llawer tyner son am danat,
  Llawer hwyl o dyner hedd,
Sy'n cymmysgu eu hanadlau,
  A'r awelon uwch dy fedd;
A d'wed llawer sant ond odid,
  Wrth dy bassiaw'm danat ti,
'Mawr ei cerid!' wedi darllen
  Fy nghalar-gân drosgl i.

CRODIT
UWCC LIBRARY

Dod 'rwyf yma i ganu ffarwel,
  Wylo—methu—troi fy nghefn,
Ac er eilwaith ddod i'w wneuthur,
  Troi—ac addaw dod drachefn.
Er nad yw y gair yn llawer,
  Methaf fi yn lân a'i ddweyd;
Ac er oered yw dy wely,
  Haws dod atat, mi wn, na'i wneyd.

Amser eill dymheru cariad:
  .Metha'i symmud metha'i droi;
Rhyw-beth yw sy'n ymsanteiddio
  Pan fo'i obaith wedi ffoi.
Beth yw miloedd o serchiadau,
  Ddyddiau'u *bywyd*—ddyddiau'u *cân*,
Wrth un serch y fron holltedig
  Fetha ado'r marw'n lân!

Bedd i'th adgof yw pob calon
  A'th adwaenai yn y dre;
A'th feddargraff glân ddarllenir,
  Ar bob tafod 'fewn y lle:
Nid oes fodd it' mwyach farw,
  Wele, byw wyt gyda ni;
Perarogli'n holl aelwydydd;
  Nid eill bedd dy gynnwys di.

Ini, blwch anwylaf daear,
  Hon, y fedd-gist yma yw;
Ar yr hon y mynnais gerfio,
  Cyfran fach o Air dy Dduw;
Gyda hyny, mae dy enw,
  Mewn llyth'renau teg eu llun;
Ië, mwy na'r oll f'anwylyd,
  Yma'r ydwyt ti dy hun.

Weithiau teimlaf y dymuniad,
  Yn ymruthro draws fy mron,
Megis *rocket* boeth ac anfad,
  Rhwygai'r awyr—ffriai'r don,
Am gael gwel'd fy anwyl briod,
  Rhoi o fyd y gwedd-dod gam;
Am atebiad i 'machgenyn,
  Eilw'n f'yml ar ei fam!

# "PENNILLION GWREIDDIOL AR ARFERION DRWG AC YNFYD YR OES."

UN O DESTUNAU EISTEDDFOD BETHESDA,

MERTHYR, NADOLIG, 1851,

GAN

## DANIEL JONES,

BETHESDA (*Michael*).

Mae byw mewn annedd fyglyd,
Yn graddol ddifa'r iechyd;
Ond cynt y lladd mae'n gant mwy blin,
Swn diflas gwraig geintachlyd.

Ni allwn gael am-unwaith
Fawr dwyll gan wr o weniaith;
Ond twyllo'n hun wnawn mwy bob tro,
Pe gwnai ein hudo ganwaith.

*Rhad*, *rhad*, medd genau'r gwerthwr,
*Drud*, *drud*, medd genau'r prynwr;
Mae *rhad* a *drud* fan hon yn ddrwg,
Mae'r ddau dan wg y Barnwr.

Mae gobaith sobra'r meddwyn,
Ac y daw'n ol y crwydryn;
Ond nid oes gobaith llaesa'r poen
Hyd dranc, yn nghroen y diogyn.

Mae amledd y meddygon,
Ac amledd diod y meddwon,
Yn dangos fod trwy'r parthau hyn,
Rhyw lu o fol ynfydion.

Fel pledren ar yr eigion,
Neu bluen rhwng awelon,
Yw dynyn gwyntog, balch, a dig,
Rhwng mawl a dirmyg dynion.

Gwell tâl am gadw iechyd,
Na thâl am ei adferyd;
Mae'r cyntaf dâl yn llai ganwaith,
A gwell o filwaith hefyd.

Os mynwch iechyd beunydd,
Hir oes a bywyd dedwydd,
Ewch i'ch gwelyau fel yr ych,
A chodwch fel uchedydd.

Mil gwaeth na chlap y felin,
A chlap twll gwynt y fegin,
Yw clap tafodau penau gwan,
Mae'u swn yn gan mwy gerwin.

Dyn a digon o'r byd yma,
Etto'n gwasgu'i gefn a'i fola;
Ac heb ddim o dda'r byd nesaf,
O bob dyn yw'r truenusaf.

Tra bo genym ddwr a dwylo,
Byddwn lanwedd, boed a fyno;
Gwell yw angen gwisg a bara,
Os bydd rhaid, a chael glanweithdra.

Nid da canmol mawr *dduwioldeb*
Unrhyw ddyn o flaen ei wyneb;
Rhag nag ymdrech ddim yn mhellach,
Am fod mwy yn ddyn amgenach.

Gwall mewn pen yw beio gwallau,
Gwaith ein gwell o ddeg o weithiau;
Beio'r gwall gan ddyn a'i gwello,
Sydd o fawr ganmoliaeth iddo.

Nid yw y da yn dda bob pryd,
Na'r drwg yn ddrwg i bawb o'r byd;
Pan metho'r da ddiwygio'r dyn,
Y drwg a'i dwg ef ato'i hun.

Nid oes nad ennill arian,
Rhai'n rhwydd, a mwy trwy ffwdan;
Ond rhai o bawb a esyd bris
Ac ystyr ffordd ystorian'.

Mae natur yn ein dysgu,
Na fyn yr hen ei blygu;
Anawdd yw hefyd blygu plant
Ar ol dybenant dyfu.

Wrth arbed brig y wialen,
Rhag croen y ferch a'r bachgen,
Caledodd llawer un ei war,
Nes marw ar y grogbren.

Os bydd genych air i'w gadw,
Peidiwch a dywedyd hwnw;
Rhag os d'wedwch, bydd dywedyd
Ar eich ol, a gwawdio'ch gwendid.

Os gafael ar y geiniog
Gaiff ambell dlawd anghenog,
Fe waria hon ar foeth diwerth,
A'i wisg yn anferth dyllog.

Dewised pawb gelfyddyd,
Yn ol ei gorff a'i iechyd;
Nid hardd saer maen, hyd byr uwch llath,
Na thaeliwr dwylath hefyd.

Mae mil yn dewis masnach
Sy'n galw'i deg amgenach,
Mewn medr a dysg, mawr olud rhydd,
O ffoledd, beth sydd ffolach?

Canmol bonedd yn ei wyneb,
Beio yn ei absenoldeb,
Er cyn waethed fo'r boneddwr,
Gwaeth o ganwaith yw'r rhagrithiwr.

Aml fonedd wrth gyfeddach,
A hir ddilyn gyda'i waelach,
Aeth heb olud, moes, nac enw;
Fel oferddyn cafodd farw.

Gwawdia, chwardda llawer llencyn,
Am ben hagrwch mawr yr henddyn,
Heb ystyried bydd ei dynged
Ef yr un, os aiff mor hened.

Os ai byth i 'mofyn priod,
Cais un fyddi yn adnabod,
Ach a thylwyth, nod a thymer,
Gochel garu yn dy gyfer.

Blin yw gweled gweithiwr caled,
Yn y ddalfa gan y ddyled
Dynwyd arno gan ei briod,
Drwy ei gwastraff a'i segurdod.

Llawer gwraig, er bod yr oraf,
Gan ei gwr a fydd y gwaethaf,
Am na fedd foes dyn na'i deimlad,
Bwystfil yw o ran ymddygiad.

Prif hyfrydwch rhai yw clebran
Geiriau segur, dwl, ac aflan,
Dadwrdd, gwaeddi, chwerthin, chwiban,
Hyd y gallont mewn ac allan;
Wrth hir arfer, prin y rhoddant,
Hanner gosteg, pan y cysgant.
Gwell yw ganddynt golli cyfan
Dae'r a nef, na cholli clepian.

Gwelir llawer mam yn gweithio,
Yn ddigolliad hyd y gallo,
Er mwyn parchu'n ffol ei merched
Pertion, megis delwau pared,
Gan eu gwasgu'n fain a'u gwisgo
Mewn gwir harddwch, a'u haddurno
Cylch eu pen a blodau celfydd,
Megis paenod byddant peunydd;
Ond pan fytho yn fethiedig,
Yn ei chornel am ychydig,
Edifara fagu delwau
Diwaith, yn lle da weithiesau.

Llawer tad er mwyn llonyddwch
Corff, a meddwl llawn dyddanwch,
Rhoddodd fynu ei awdurdod,
Hawl a meddiant i'w fab priod;
Rhoddi wnaeth ef mewn hen oedran,
Ffon ei hun i guro'i hunan;
Gwell yw baich o ofal bydol,
Na bychaniad mab hunanol.

Os bydd gan ddyn ddawn hynod
At un peth, bydded barod
I'w iawn ddefnyddio,
Heb feddwl nad oes arall
Yn meddu dawn na deall,
Yn debyg iddo.
Mae llu, mor falch a'r diafol du,
Ar beth a roddir
Gan Awdwr natur,
Wrth bwys a mesur

Pa ryfedd fod teyrnasoedd
Y ddaear, mewn rhyfeloedd,
Pan mae eglwysi Brenin hedd
Yn nghledd yn nghledd, rhyw luoedd ;
Os mynwn hedd o'r orsedd,
Cyfiawnder pur o'r senedd,
Rho'ed holl eglwysi Crist i'r byd,
Nod heddwch hyd y diwedd.

Mae lladron prif-ffyrdd llydain,
Yn meddu yspryd milain ;
Ond gwaeth yw'r plant sy'n gwneuthur cam,
A'u tad a'u mam eu hunain.
Rhyw lu drwy ladrad beunydd,
A nodau nwy anufydd,
Yrasant eu rhieni mwyn
I'r bedd, mewn cwyn annedwydd.

Arfer ynfyd rhai boneddwyr,
Ydyw, parchu drwg glebarwyr
Diog, meddw, a chelwyddog,
Ac athrodwyr dauwynebog ;
Ond ni pharchant wr o rinwedd,
Hwn yw'r gwaethaf yn eu hannedd ;
Gwyr o olud, nid boneddion,
Mewn gwirionedd, yw'r ynfydion.

CARDIFF
UWCC LIBRARY

Argraffwyd gan William Spurrell, Heol-y-Brenin, Caerfyrddin.

## Y RHAGLITH.

O! na ddywed, pan yn wylo,
  Am dy ddeigryn, "Ofer ddaw!"
Beth a dd'ai o flodau daear
  Heb y gloyw ddefnyn gwlaw?
O! na ddywed, pan yn wylo,
  Am dy ddagrau, "'N sych yr ant!"
Os yn santaidd eu ffynhonell,
  Dringo uwch y nwyfre wnant.

Megis yn allanol natur,
  Cawod, ber ei dafnau, wna,
Gyd-ddeffroi i dlos fodolaeth
  Swrthlyd flodau heirdd yr ha';
Felly dichon gofid hidlo
  Cawod dry'r fagwraeth gref
Blodau a flagurant etto, 'n
  Hir a hardd yn ngerddi nef.

X2050031460

Wrth ddynesu 'n ddistaw cefais
   Mai'r gweinidog oedd y gwr,
Ac mai am anwylaf *briod*
   Wylai'r galon ddistaw ddwr,
Ac mae 'r boreu hwnw rhoisid
   Y fedd-adail yn ei lle;
Ond o'r diwedd, tori allan
   Wnaeth ei ddwys alar-gân e.

"O! fy anwyl, anwyl Briod!
   Roes yr angeu creulon di,
Nes mai erot ond hyn *yma*
   Ydyw 'r oll a allaf fi?
Nes nad oes, o faes i'th erchwyn,
   Onid beunydd wylo 'n bod,
Hyd yr 'Henffych!' ddiwrnod hwnw,
   Cawn ein deuoedd drosti ddod?

Mwyach, troi o'r naill flodeuyn,
   At flodeuyn arall wnaf;
Sugno, megis prudd wenynen;
   Etto, dim ond chwer'der gaf;
Tynu yma, yn y diwedd
   *Yma* 'm lili ber yn wyw;
Etto, mae i *mi* 'n bereiddiach
   Na holl flodau 'r gread fyw.

Yngwaelodion Sir Gaerfyrddin,
   Lle mae iechyd, lon'd y nen,
Y'th ganfyddais, O f'anwylyd!
   Fel y lili, 'n wylaidd ben.
Yna 'th godi, a'th adblanu
   Yma, 'r fyglyd fro, fy ngwaith;
Gwywaist tithau dan yr hinsawdd;
   Do, ac heb fy meio, chwaith.

Teg Lanboidy! er y'th welais,
   Megaist dan fy mynwes wres;
Nid dy athraw, chwaith, er cystal,
   Gwersi'th ysgol faint eu lles.
Yn y Cwrtau tyfai'r rhosyn
   Orbereiddiai i mi y man:
Darfu'th swyn, fy hen Lanboidy,
   Pan i'r fynwes ces fy Ann.

A oes in' warcheidwawl engyl?
  Neu, a oes un gennyf *fi?*
Gwn yn wir fod, O f'anwylyd,
  Gennyf *un* tra'r oeddit ti.
Pan dan lymion arfau'r meddyg,
  Pan dan nychdod hir fy nghlwy',
Cefais di yn briod gynnes;
  Do, 'n angyles hoff a mwy.

Duw a ŵyr pa beth sydd oreu;
  O mor dda fu wrthyf fi!
Beth a wnaethwn dan y poenau
  Nychlyd *hyny* hebot ti?
D'wedaist yna wrth yr angeu,
  Delit fi a'th ddeheulaw wen;
Minnau wyf, pan ddel, heb wybod
  Pwy'n y byd a ddeil fy mhen!

Ie, hir y tebygasid
  Mai myfi yn gyntaf âi;
Ac i'm dal a chau fy llygaid,
  Mai tydi y drafferth gai:
Etto er na'm deil dy ddwylaw,
  Mae dy olaf eiriau'n graig,
Ag a'm deil, er gwaetha'r angeu,
  Ac ei gwaethaf hithau'r ddraig.

Pan yr wylit, treiglai'r defnyn
  Claer o'th lygad glas yn syth;
Yna tybiwn mod i'n gweled
  Crynllys yn defnynu gwlith:
Pan y gwenit, âi dy gariad
  Megis bywiol fflamau im';
Yna tybiwn 'mod i'n gweled
  Tegwch saphir braidd yn ddim.

Eiddom dyddiau goreu'r einioes,
  Cyn a chwedi'n c'lymu'n un;
Nis gall fod eu gwaethaf mwyach,
  Ond yn eiddof fi fy hun.
Gwir y gwena'r haul a'r blodau,
  Ac na wenant arnat ti;
Ond cei lechu rhag pob storom,
  Dery'n filain, f'allai, fi.

Hawdd oedd gwel'd nad hir amcensid
  Ar y ddaear hon ei hoes,
Canys gwelw'i grudd â'r eiliw
  Hwnw'r eilfyd ganwaith roes ;
Eiliw'n dod pan gerddo diwrnod
  Daear fel at fin ei fraw,
A'r goleuni'n dechreu t'wynu
  Eisioes drwodd oddi draw.

Gwywo, ddydd i ddydd, a wnelai,
  Dan fy llaith olygon i ;
Yna rhoes y cryf ddisglaerder
  Hir 'farwel' i'w llygad hi :
Ond tynerwch yr angyles
  Ydoedd yno'n gu ddigoll,
Gan orseddu fel brenhines
  Lariaidd, dawel, wedi'r oll.

Ie, peraidd a dinewid
  Ydoedd edrychiadau'i serch,
Nes cyn myn'd, ymdyfai'n fwyfwy
  Nefol na daearol ferch ;
Ac ni cheid ei llafar lygaid
  Yn cyffesu fyth i ni,
Ddim o'r gwayw na'r gwasgfäon
  Diau a oddefai hi.

Gan gyd-ddwyn o hyd yn llariaidd
  Ag yr oll anfonai 'i Rhi,
Fel pe'n unig i fendithio
  Y pelydrai 'i llygaid hi :
Nodi'r rhosyn ar ei dwyrudd
  Wnelai rhai â llawen floedd ;
Gwyddwn i er hyn i'm gofid,
  Mai ffals wrid yr angeu oedd !

Mynodd brofi wrth fy ngado,
  Fod ei serch o hyd yn gref,
Megis cwmwl yn dyhidlo'i
  Fywyd wrth fyn'd tua'r nef.
Er yn gwel'd fod ffrwd ei theimlad
  Yn gwasgaru'r nerth yngholl,
Felly fu ! a mawr ei chariad :
  Hyn o'i hanes, trymaf oll !

Nid yw'r oriau a'i rhagflaenant,
  Ond cysgodau oll o hon ;
T'wynai'n unig, pe diflanent,
  Hi yn haul cyfundrefn bron :
Os o'i blaen fy oriau'n gysgod,
  Aethent ar ei hol yn nos,
Gan fy nghau yn anial trallod,
  Lle 'rwy'n ffeindio llawer ffos !

Felly'n raddol gwanach, wanach,
  Ac yn araf iawn yr aeth ;
Hithau'r einioes, drwy'r fynedfa,
  Yn ymlwybro'n fwyfwy caeth ;
Yn y diwedd 'rol i gochni
  Groesi'i gwedd ymlaen ac ol,
Plygu wnaeth ei phen yn dawel,
  Ac ymddiffodd yn fy nghol.

Mae ei hamser teg i ddisgyn,
  Gan bob deilen lwysaidd las ;
Ac i'r blodau chweg ddiflanu,
  Dan anadlau'r gogledd cras ;
Oes ; a chan y sêr i fachlud ;
  Ond pob dwr yn dymhor sy
I'n diflanu *ni*, a'n cwympo,
  Gennyt tithau angeu du !

Deliaist hi ar drofa'r ymyl,
  Fel pe'n myn'd, o awr i awr,
Gan o gwlwm bach i gwlwm,
  Ei rhyddhau oddiwrth y llawr ;
Ond pan allodd haul ond gwenu
  Foreu Sabboth, collaist hi ;
Yna cyntaf ddeigryn gwedd-dod
  Dreiglodd dros fy llwyd-rudd i !

Dy amrantau'n araf gauad
  Welais—O, f'anwylyd dlos !
Ar obenydd oer yr Angeu,
  Megis at orphwysdra nos
Fel ar *fachlud* haul, y blodau'n
  Cau eu llygaid bach ynghyd,
Ond dy fod ar ei *gyfodiad*,
  Ac am byth ar hyn o fyd.

Ac a gadd erioed ysbrydoedd
  Fath gymmundeb a nyni,
Pan ein dau heb yngan unsill,
  Graddol ymadewit ti ?
Pan y cefais fod yn olaf
  Ddyn ganfyddaist, er o bell,
Megis cwpl o fynydau
  Cyn y gwelaist Briod gwell.

Gorphwys yna—'nghol dy Geidwad
  O hyn allan, doed a ddel;
Hyd yn nod tra yma'n tramwy,
  Ar dy dalcen ceid ei sel,
Gallwn ninnau—gawsom edrych ;
  Arnat dan dy olaf glwy' !
Wedi gwel'd dy arwedd yno,
  Peidio ofni marw mwy.

Sylla heulwen weithiau'n anwyl ;
  Ar ryw bluen fach o ôd,
Welo ar oer fron y mynydd ;
  Ac a'i gesyd dan ei nod.
Gan ei 'sbario a'i goliwio ;
  'N hir â rhos-oleuni cu,
(Megis Haul y nef â thithau,)
  Yn y diwedd myn'd a hi.

Diwrnod trwm oedd dydd dy angladd,
  Cerddai pawb o'th gylch yn brudd,
Holl Fethesda a'i chym'dogion ;
  Gyda deigryn ar eu grudd !
Gwŷr edrychant ar eu gwragedd ;
  Ie'n nghegwch byw eu gwedd,
Attynt, nes a nes, ymwasgant,
  A meddylient am y bedd !

' Pridd i'r pridd, a lludw i'r lludw !'
  Geiriau cras i'r byw mi wn ;
Etto felly'th roed i gysgu,
  Gennym yn dy wely hwn :
Yna taclu dy erchwyni,
  Codi'th ortho'n glyd a chau.
Wnaethom heddyw, gan gysegru
  Gyd a'n dagrau'r oll ein dau.

Dacw'r *shawl*, a thacw'r *fonet;*
  Dacw hi, 'r *umbrella* las,
Daeth yr hyfryd foreu Sabboth
  Wele finnau'n myn'd i maes;
Wele fraich dy wr i'th gynnal,
  Dyna'r cloc yn taro naw,
Yntau, Ioan bach, yn disgwyl
  Mam i gydio yn ei law.

Ië, aml foreu Sabboth,
  'Rol dy briddo, felly bu,
Fel pe'th ddisgwyl dros fynydyn,
  Tithau gan yr angeu du!
A'r trwm Sabboth y'n gadewaist,
  Sul cymmuno oedd efe,
Ni â'r arwydd yn Methesda,
  Tithau'r sylwedd, yn y ne'.

Ofer tua'th hen eisteddle
  Try'm hiraethus lygad mwy,
A'r chwiorydd, am dy gamrau,
  Tua'u blasus gyrddau hwy.
Am dy help yn gysur cleifion
  Ond y son a'r adgo' gaf
Ti, drwy'th glefyd hir dy hunan,
  Ddringaist lle nad clwy' na chlaf.

'Gorais heddyw'r gist sy'n cadw
  Rhyw weddillion iti 'nghudd,
A phob un o honynt dynai'r
  Dafnau heilltion dros fy ngrudd;
Ac os caiff eneidiau gennad
  I ymwel'd â'r isel wlad,
Gall'sit tithau wel'd dy blentyn
  Yno'n wylo gyd a'i dad.

Nad beth wyt yn awr, f'anwylyd,
  D'enaid fewn fy meddwl sydd,
Try dy gysgod—cwmni'm bywyd
  Gylch f'ymenydd nos a dydd;
Pan ddygwyddo cysgod rywbryd
  Ddod o'm hol neu wrthol i,
Moldia hiraeth yn y fynyd,
  Hwnnw'n ffurf dy berson di.

A! mae serch a gyll ei hana'I,
  Pan el gwrid y rudd i ffwrdd;
Arall geir, tra fyddo'n aros,
  Wledd pleserau ar ei bwrdd;
Tyfu wnai fy ngharaid innau,
  Pan f'ai'th wedd yn llwyda'i gwawr;
Tyf yn fwy nag oll o'r diwrnod,
  Hwnnw'th roes lle'r wyt yn awr.

Digon gwir it' orfod gadael
  Unig blentyn serch dy gol,
Ond dy santaidd ddylanwadau
  Oll arosant arno'n ol.
Digon gwir i'r bwa dori,
  Ond yr ergyd ymaith aeth;
A hi etyb eitha'i hamcan,
  Canys sicr oedd y saeth.

Angeu! angeu! passio wnaethost,
  Aml ddrws yn lled ddi nag,
Gwnest i minnau'm llawr a'm haelwyd,
  A'm hystafell wely'n wag.
Gado'n llawn wnest ambell fynwes,
  Ond rhoist fynwes wag i mi,
Oddieithr un ochenaid,
  Sydd yn fwy na'i llonaid hi.

Och sydd yma, 'n wir, f'anwylyd,
  Er nad oes un och i ti;
Cân di 'mlaen, fy nheg anwylyd,
  Heb un ran o'n hwylo ni;
Dwfn y rhaid i'r holl alaru,
  Am y marw hwnnw fod!
Na roes achos i ddisgyniad,
  Chwerw ddafn o'r blaen erioed.

Synir pam y'm gwelir gymmaint,
  Am fod ar fy mhen fy hun;
Ac am beidio seinio'th enw,
  Anwyl di wrth odid un.
Ofni'r wyf i ffyliaid glywed
  Ocheneidiau'm dwyfron i!
Rhag halogi'r pethau ddylent,
  Fod yn hollol *eiddot ti.*

Ond tra magwyf y dymuniad,
  Try y byd yn deg ei wawr,
Gan gildaflu arnaf lygad,
  A lled wasgu 'mraich i lawr:
Ond, anwyl-wir f'oes yw hwnnw,
  Penaf falm fy mywyd yw,
Y daw i'm galw gerbyd marw,
  I'm dwyn lle mae fy ffrindiau'n byw.

Diwedir wrthyf am Ragluniaeth,
  Ac am fod â'i threfn gytûn,
Fod dy galon—fod dy lygaid,
  Ond dy ddagrau, fyth yr un!
Am dy fantais di dywedant,
  Am i minnau fyw drwy ffydd;
Ond pwy im' fy nghyfan galon,
  Calon'r amser *hwnnw* rydd!

O! y prif a ddifa'r dirion.
  Briod wesgais yn fy mron;
Y mae'i chwaer yn difa'm calon,
  Effro innau'r fynyd hon!
Pwysig glai roed ar y ddwyrudd,
  Gai 'm cusanau mwyaf cu;
A'r un adeg gwasgodd mynydd,
  Hiraeth ar fy nwyfron i!

Etto, balm ar glwyf fy hiraeth,
  Fod y nef yn eiddo Duw;
A'th fod dithau, 'm hoff anwylyd,
  Yno'n well dy le yn byw!
Ac y cawn, wrth ddringo'r rhiwiau,
  Tuag yno ddringaist ti,
Megis cynt dy hoff gofleidio,
  Lle na ddaw na chroes na chri."

Felly'r ddau a droisant adre'n
  Ddigon prudd, o gam i gam,
Gyd a'u hiraeth dwys yn gwmni,
  Heb y *Briod*! heb y *Fam*!
Ond pan ant at ddrws y Capel,
  Gallech ddarllen ar eu gwedd,
Araf gam, a dwys ochenaid,
  Yn mha fan mae'r anwyl FEDD.

MERCH IEUANC,
*Sef y Parch. J. Jones, Llangollen.*

# PENNILLION.

Fel coden ddeu-pen gauad,
Yn cadw ei holl gynhwysiad,
Yw calon cybydd ar bob awr,
Ni rydd pan fo mawr alwad.

Peth da a doeth yw yfed
Y ddiod dor y syched;
Ond yfed diod byth nas tor,
Nid oes ond ffwl mor ffoled.

Gwarth enwi *enw'r Mawredd*
Mewn *gwawd*, a gwag *oferedd;*
Nid oes trwy'r bydoedd oll ond *dyn*
Yn euog o'r un *cabledd.*

Peth *dwl* f'ai gwaeddi anrheg,
Fel cyd-gân ar bob brawddeg;
Ond enwi'r drwg[1] sydd *bechod* blin,
Ar un-dyn nid yw landeg.

Os ffoledd ydyw crefydd,
A bod i hon yn ufydd;
Mil ffolach cablu'r ffoledd wâr,
Nes dangos gwell arweinydd.

Y peth ag sydd wirionedd,
O'i wisgo a gorwagedd,
Rhoi tad y celwydd wrtho'n sêl,
Gymmerir fel anwiredd.

[1] Y diafol.

Y bwyd[1] sy'n porthi balchder,
Ni fyn y corff un amser,
Rhy ysgafn yw, neu ynte fach,
Am hyn nid iach ei arfer.

Y dyn ni wir ddiolcho
I Dduw am bob peth feddo,
Yw'r annuwiolaf dan y ser,
Mae'n waeth na hanner gwallgo.

Na rowch ar dân ddim tanwydd,
Efe yn llwyr a ddiffydd ;
Ac felly cynnen o bob math,
Pe tawai pob athrodydd.

Y pethau sydd bwysicaf,
Sy'n cael y *sylw* lleiaf;
Ond mynant *galon* dyn ryw bryd,
Drwy beri'r gofid mwyaf.

Mae'n rhaid i'r *sarph* wenwynig,
Bob *blwydd* gael *pryd* arbenig ;
Ond *pryd* am *oes* wna'r tro i *ddig*
Y galon felltigedig.

Rhowch *olud* mawr i *asyn*,
A *chi* a *gwas* i'w ddilyn,
Fe waedda hanner teulu dyn,
" Coronwch ef yn frenin."

Os hanfod y babyddiaeth
Yw yspryd bod yn benaeth,
Y mae pob dyn yn babydd bach,
Cyn derbyn iachawdwriaeth.

Gwaethaf treth yw treth y blys,
Drudach, caethach, gwaeth ei llys ;
A thra talom hon heb ball,
Peidiwn grwgnach dan y llall.

Rhown i natur wrth ei galwad,
Gwsg a diod, bwyd a dillad,
Gwaith priodol, a bydd digon
Un o fil o'n holl feddygon.

[1] At y wisg y cyfeirir.

Gwell yw byw wrth lai na digon,
Os bydd rhaid, na byw'n afradlon ;
Gwell i gorff, a gwell i'r yspryd,
Gwell i feddu y ddau fywyd.

Y mae un yn twyllo moddion
Ei gyd ddyn, trwy addewidion
Teg, y tâl mewn awr ddyfodol,
Ond o feddwl gwrthwynebol ;
Tra mae'r llall yn eu lladratta ;
O'r ddau ladron, gwaeth yw'r cynta',
Gellir gwylied rhag yr olaf,
Ond pwy nebydd wên y cyntaf.

Naturiol yw i fochyn
Roi drwyn yn mhob ryw grugyn ;
Ond gwarth i ddyn yw d'wyno'i swch,
Wrth drwyno'r trewlwch melyn.

Peth hardd mewn ych neu ddafad,
Ail gnoi wrth raid eu poriad ;
Ond cnoi rhyw ddail fel hyn gan ddyn
Sydd frwnt, ac ynfyd afrad.

Pob geneth landeg odiaeth,
Gan bawb a fyn ganmoliaeth ;
Mwy gwerth gan hon yw tegwch pryd,
Na glendid iechydwriaeth.

Y ferch sydd mor anhygar,
Nes methu codi cymmar ;
Ni chanmol ferched hardd eu gwedd,
Fath ferch ni fedd y ddaear.

Mae rhoddwr er mwyn enw,
Mae rhoddwr er mwyn elw,
Mae rhoddwr er llesäd i'r gwael,
Y rhoddwr hael yw hwnw.

Y gwr a'r llygaid gŵyrog,
A'r gwyneb mwyaf gwenog,
A dyn o dafod teg a ffel,
Yw'r gwaethaf fel cymmydog.

Megis diffodd tân mewn pylor,
Cau y wawr pan fyddo'n agor,
Ydyw cynnyg cauad genau
Rhai gyneuant fân gynhenau.

Arfer llawer ydyw gwawdio
Rhai diniwed wrth fyn'd heibio,
Gwaeddi, chwerthin am eu penau,
Gyda dannod eu gwendidau,
Fel pe byddent hwy'r ynfydion,
O uwch graddau nac yw dynion;
Ond gwybyddwn, hil gwiberod
A rhyw'r diafol yw'r dyhirod.

Arfer rhai yw trin achosion
Drwg a da eu cymmydogion;
Bwytta'n flysig eu pechodau,
Gwawdio gwedi'n eu rhinweddau.

Fel cludwyr mân sypynau,
Neu gludwyr cod-lythyrau,
Y gwelir llu o dŷ i'r llall,
Yn chwalu gwallddrwg chwedlau.

Doethach ieuo ych ag asyn,
Camel gwrol ag ebolyn,
Na phriodi hoyw lances,
Byth a henddyn, wrth bob hanes.

Nid oes neb yn gwel'd ei hunan,
Ol a blaen yn gwbl gyfan;
Ond ni welwn ar un olwg
Bawb ein gilydd, yn bur amlwg;
Felly rhai ni welant bechod
Yn eu hunain, nac un palldod,
Pe bai megis pechod Judas,
Pharaoh, Herod, gyda Demas;
Am na fynant wel'd eu buchedd
Lawn o bechod, aflan agwedd;
Ond hwy welant bechod bychan
Eraill, fel y mwyaf aflan.

Ei 'wyllys gywir hu ; [1]
Dyweded pawb gan hyny
Am feddo felly fu :

Pob gwall, neu golled, wel y call,
Mewn trâs neu estron,
Par ofid calon
I hwn yn gyson,
Ni char mewn dynion ball ;
Fel myn ef fod ei hunan,
O anian myn y llall.

Ynfydrwydd yw ymddiried
I fwriad, gair na gweithred,
Y dyn wna gam a'i deulu'i hun,
Gwell rhag fath adyn gwylied.

Gochel dwyll gan fab gweniaethgar,
Rhodia'n mhell rhag mab rhodresgar,
Rhed rhag deniad y rhodiennwr,
Saf yn mhell rhag pob segurwr,
Paid a minial dim i'r meddwyn,
Paid fy merch priodi mochyn ;
Myn ddyn drwyddo o dda arfer,
Dyn, nid bwystfil, o ran tymher :
Blin yw gweled merch ddiniwed,
A'i holl galon ar ddyn caled ;
Mil am gant o'r glan enethod,
Sydd yn benaf am wr priod,
Pe bai'r gwaethaf sydd yn rhodio,
Mynant hwnw cyn bod hebddo ;
Rhyfedd na chymmerant rybydd
Rhag fath ffoledd, gan eu gilydd.

Os rhoir i rai ddyrchafiaeth,
O herwydd mawr ragoriaeth,
Dymuna llawer iddynt gam,
Os nid eu damnedigaeth.

Y mae llawer un yn cloddio
Pwll i arall, ac yn syrthio
Iddo'i hunan, yn y diwedd,
Ynddo'n marw mewn cynddaredd.

[1] Parod.